COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD IAU, 8 CHWEFROR 2024 AM 10:00

Yn Bresennol

E D Winstanley

Yn Bresennol yn Rhithiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | RM Granville | D T Harrison | M L Hughes |
| RM James | R J Smith | I M Spiller | G Walter |
| M Williams | P Ford | M Jones | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

T Thomas

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Laura Griffiths | Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes - Gwasanaethau Democrataidd |
| Nimi Chandrasena | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

Gwahoddedigion

Cynghorydd Jane Gebbie
Cynghorydd Amanda Williams

## 1. Penodi Cadeirydd y Cyfarfod

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Enwebwyd y Cynghorydd Ian Spiller yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod penodol hwn. Fodd bynnag, cafwyd ail enwebiad o blaid y Cynghorydd Elaine Winstanley, ac fe wnaeth yr holl aelodau dderbyn hynny'n unfrydol oherwydd roedd y Cynghorydd Spiller yn profi anawsterau technegol. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 8 Chwefror 2024 |

## 2. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cynghorydd Tim Thomas |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 8 Chwefror 2024 |

## 3. Datgan Buddiannau

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Dim |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 8 Chwefror 2024 |

## 4. Cymeradwyo'r Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Y dylai cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 26/10/2023 gael eu cymeradwyo fel cofnod cywir. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 8 Chwefror 2024 |

## 5. Diweddariad Gweithgor y Porth Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Fe wnaeth y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd groesawu'r Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Jane Gebbie a'r Cynghorydd Amanda Williams, oedd yn wahoddedigion ar gyfer yr eitem benodol hon, a hysbysodd y pwyllgor eu bod yn bresennol.<br>Aeth hi ati i gyflwyno'r adroddiad, a diben hynny oedd rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch gwaith Gweithgor y Porth Cynghorwyr, i'w nodi gan y Pwyllgor, yn cynnwys camau gweithredu yn deillio o'r cyfarfod diweddaraf.<br><br>• Fe wnaeth y Cadeirydd wahodd sylwadau gan y Cynghorydd Walter, Cadeirydd y gweithgor.<br><br>Dywedodd Cadeirydd y gweithgor ei fod yn credu fod yr adroddiad yn grynodeb cynhwysfawr iawn/ Dywedodd, wrth gwrdd â swyddogion yn ystod y tri neu bedwar cyfarfod, y cafwyd rhywfaint o herio cadarn, ac mewn ymateb i hynny, cafwyd esboniadau manwl mewn perthynas â materion a amlygwyd.<br>Dywedodd ei fod yn credu bod y gweithgor wedi gwneud eu gorau glas gan ystyried y cyfyngiadau o ran adnoddau, yn adnoddau ariannol a dynol, felly nid oedd ganddo unrhyw beth arall i'w ychwanegu.<br><br>• Nododd aelod ei fod yntau hefyd yn aelod o'r gweithgor, ac nad oedd y system Porth yn berffaith o bell ffordd, ond honno oedd yr unig system a oedd ar gael ac roedd angen i ddefnyddwyr sicrhau eu bod yn manteisio'n llawn ar y defnydd ohoni at y diben gofynnol. Dywedodd ei fod wedi sylwi ar rywfaint o adborth; o ran unrhyw achosion yr oedd wedi'u cyflwyno lle cawsant eu hailddyrannu ac roedd wedi cael gwybod yn rheolaidd am yr hyn a oedd yn gadarnhaol i'w nodi. Crybwyllodd fod Swyddogion wedi gohebu oddi allan i'r Porth sawl gwaith trwy e-bostio, ac roedd yr aelodau wedi cadw'r ymatebion hynny a'u hail-fewnbynnu i'r porth er mwyn sicrhau bod yr holl ohebiaeth gysylltiedig yn cael ei chadw yn yr un lle. Dywedodd nad oedd unrhyw gydberthynas rhwng y Porth a gwefan y Cyngor a fyddai'n hwyluso'r aelodau i ddeall beth fyddai'r ffordd orau o gyflwyno achos.<br><br>• Dywedodd un aelod ei fod wedi sylwi ar rywbeth a allai fod yn gyfyngiad ariannol oherwydd nid oedd yn gwybod a oedd Granicus, yr oedd ei enw i'w weld ar gornel chwith isaf y system Porth, wedi darparu "cynnyrch parod" i'r Awdurdod a'r Awdurdod wedi talu am hynny, a holodd faint o |

| | |
|---|---|
| | reolaeth oedd gan yr Awdurdod a pha un ai a oedd y datblygwyr yn gallu diwygio rhai o'r agweddau a oedd yn achosi anawsterau i'r aelodau.<br>Awgrymodd y gellid gwneud gwelliannau i'r rhyngwyneb defnyddiwr a allai ddiddymu'r ddolen yr oedd defnyddwyr fel pe tai yn llywio o'i chwmpas. Gofynnodd a allai'r gweithgor ymchwilio i'r cyfyngiadau ariannol hyn oherwydd roedd yn ansicr ai cyfrifoldeb Granicus neu gyfrifoldeb tîm mewnol oedd y costau yn ymwneud â gwelliannau.<br><br>Ymatebodd y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ei bod hi wedi cael ar ddeall mai cynnyrch parod oedd hynny a ddefnyddid mewn awdurdodau lleol eraill, yn Lloegr o bosibl ond nid yng Nghymru.<br>Dywedodd mai'r ddealltwriaeth oedd y byddai cost yn gysylltiedig ag unrhyw newidiadau/gwelliannau oherwydd byddai hynny'n golygu y byddai gwaith y byddai'n rhaid i Granicus ei gyflawni.<br><br>• Holodd yr un aelod a oedd modd cael gweld y contract rhwng y Cyngor a Granicus ac a ellid rhoi manylion y costau i'r pwyllgor.<br><br>Cadarnhaodd y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y buasai'n caffael y wybodaeth y gofynnwyd amdani a'i rhannu trwy'r Pwyllgor.<br><br>• Holodd aelod am wybodaeth yn yr adroddiad ynghylch Cytundebau Lefel Gwasanaeth, gan ofyn a oedd data meysydd gwasanaethau unigol cyfredol mewn perthynas â Chytundebau Lefel Gwasanaeth ar gael cyn gwneud unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth hyn. Dywedodd fod angen deall a yw'r hyn a gynigir yn ymarferol ac yn bwriadu darparu gwasanaeth sy'n realistig.<br><br>Ymatebodd y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd trwy ddweud nad oedd ganddi'r data cyfredol am Gytundebau Lefel Gwasanaeth, ond nododd ei bod hi'n deall fod mwyafrif yr oedi yn digwydd yn cymunedau. Roedd hi'n derbyn y byddai'n ddoeth sicrhau bod y pwyllgor yn cael y data presennol er mwyn iddynt ystyried y newidiadau arfaethedig i'r CLG. Atgoffodd y pwyllgor mai dim ond rhai o'r meysydd gwasanaethau oedd yn ceisio estyniad y tu hwnt i'r CLG presennol o 10 diwrnod.<br><br>• Dywedodd y Dirprwy Arweinydd ei bod yn aelod o'r Cabinet oedd yn dychwelyd a'i bod yn gyfarwydd â'r system atgyfeirio aelodau a ddefnyddiwyd yn flaenorol (OTRS). Felly, o safbwynt y |

| | |
|---|---|
| | cabinet, cafwyd anawsterau gwirioneddol â'r porth ac roedd hyn wedi'i gyfleu yng ngweithgor y Porth. Yn gadarnhaol, dywedodd ei bod credu bod y swyddogaeth "rhoi gwybod amdano" yn ardderchog, yn enwedig yn sgil y ffaith y gallai unrhyw aelod o'r cyhoedd ei ddefnyddio o ble bynnag yr oeddent yn rhoi gwybod.<br>Dywedodd ei bod yn cael anawsterau sylweddol wrth ddefnyddio'r "System Borth" oherwydd y cyfyngiadau ar ei nodweddion.<br>Cywirodd y Dirprwy Arweinydd sylw blaenorol a wnaed oherwydd roedd dwy system cyfeirio aelodau; y Porth oedd un ac OTRS oedd y llall, a oedd yn cael ei ddefnyddio ar y pryd i reoli cyfeiriadau Aelodau Senedd Cymru/ASau a Gohebiaeth y Cabinet â phartïon allanol. Dywedodd ei bod yn gallu cyfeirio atgyfeiriad at fwy nag un unigolyn a mwy nag un adran yn achos OTRS.<br>Dywedodd y Dirprwy Arweinydd nad oedd y Porth yn addas i reoli atgyfeiriadau cymhleth ac roedd ganddi bryderon sylweddol ynghylch mynd yn groes i ofynion GDPR wrth ddefnyddio'r Porth, er bod swyddogion wedi cynnig sicrwydd.<br>Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod yr holl aelodau yn gweithredu yn rhinwedd bod yn wleidyddion. Roedd agweddau gwleidyddol ar yr ymatebion amrywiol y gellid gorfod eu hanfon. Dywedodd fod rheswm bwriadol am hynny. Roedd hynny oherwydd roedd angen iddi sicrhau bod y Cyngor yn cadw at ofynion polisi. Pe bai anhawster yn codi, sut ddylai aelodau ymchwilio i hynny cyn darparu ymateb priodol.<br>Bwriad y Cabinet ac Aelodau' oedd datrys materion yn brydlon ac yn briodol oherwydd hynny fyddai'r gynrychiolaeth orau i'r Awdurdod.<br>Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd at yr 'opsiwn ailgyfeirio' o fewn y system Porth, gan nodi nad oedd unrhyw berchnogaeth. Fel enghraifft, pe bai angen cyfraniadau gan ddwy adran, dywedodd y gallai gael ei gyfeirio at un yn unig yn y porth.<br>Yna, roedd disgwyl i swyddog yn yr adran gyntaf ysgwyddo cyfrifoldeb a pherchnogaeth i'w gyfeirio at yr adran nesaf. Dywedodd nad oedd y swyddogaeth hon yn gweithio'n dda iawn oherwydd nid oedd swyddogion yn deall pen pellaf y system Porth.<br><br>Yn ychwanegol, nid oedd yn ymddangos bod unrhyw berchnogaeth ar ôl i atgyfeiriad gael ei ailgyfeirio. Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd at OTRS, a ddefnyddiwyd yn flaenorol gan yr holl aelodau ac a oedd yn cael ei ddefnyddio ar y pryd gan y Cabinet ar atgyfeiriadau at Aelodau |

| | |
|---|---|
| | Senedd Cymru/ASau ac atgyfeiriadau allanol, gan nodi bod ystod o atgyfeiriadau allanol at lawer o asiantaethau ac roeddent oll yn cael eu cofnodi, ac roedd data gohebiaeth at bob parti yn cael eu cadw o dan un rhif system atgyfeirio unigryw.<br>Cymharodd y nodwedd hon â'r Porth gan nodi nad oedd nodwedd o'r fath yn bosibl oherwydd pan fyddai atgyfeiriad wedi'i anfon at un derbynnydd ac wedi'i gau oherwydd roedd eu tasg unigol wedi'i chwblhau, roedd yr atgyfeiriad yn dal i fod ar gau i bob parti.<br>Dywedodd y gellid ailagor achos yn OTRS pe bai hynny'n ofynnol yn sgil uwchgyfeirio materion neu yn sgil y ffaith na lwyddodd yr atebion y gwnaethant eu cynnig.<br>Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod swyddogaeth 'Cyfuno' yn bosibl yn OTRS ond nid oedd hynny'n bosibl yn y Porth.<br>Fel enghraifft, dywedodd y gellid anfon copi at Aelodau sy'n perthyn i'r un ward ynghylch yr un mater, ac er mwyn osgoi dyblygu ar gyfer Aelodau a Meysydd Gwasanaethau, roedd yr atgyfeiriadau hyn fel arfer yn cael eu huno yn OTRS; nid oedd y nodwedd hon yn bosibl yn y Porth.<br>Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod angen trafodaeth ehangach ynghylch y system gweithredu. Dywedodd fod y Porth yn dibynnu ar allu swyddogion i ddeall a gweithrediadau cyfarwyddiaethau eraill yn ogystal â gweithrediadau eu hadran eu hunain yn yr un system.<br><br>• Cyfeiriodd Aelod at y drafodaeth ar Gytundebau Lefel Gwasanaeth a dywedodd fod y gweithgor wedi nodi bod rhai atgyfeiriadau yn fwy o anghenraid nag eraill ac na fyddai'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth mwyaf yn addas yn yr achosion hyn. Awgrymwyd bod yr anghenraid yn cael ei grybwyll yn nheitl yr atgyfeiriad.<br><br>• Dywedodd y Cynghorydd A Williams, yn dilyn sylwadau a wnaed gan y Dirprwy Arweinydd yn flaenorol, fod nifer o faterion wedi'u codi yn eu cyfarfodydd Arweinwyr Grwpiau mewn perthynas â'r System Borth. Fel enghraifft, dywedodd fod atgyfeiriadau ar y system Porth yn cael eu cau heb roi rheswm a bod cais wedi'i wneud i ychwanegu rheswm dros gau.<br>Dywedodd fod aelodau'n dueddol o gofnodi mater fel atgyfeiriad ar y system Porth yn hytrach nag 'Rhoi gwybod am' oherwydd maent atebol i'r cyhoedd ac ar y pryd, nid oeddent yn cael atebion y gallent eu rhannu wedi hynny. Dywedodd y Cynghorydd Williams eu bod wedi cael gwybod bod |

| | |
|---|---|
| | anawsterau technegol wrth ddarparu atebion a bod yr Arweinwyr Grwpiau wedi cyflwyno awgrymiadau y gobeithiai gael diweddariad arnynt yng nghyfarfod nesaf yr Arweinydd Grŵp.<br><br>Gadawodd y Gwahoddedigion y cyfarfod.<br><br>**PENDERFYNWYD:** Cytunwyd y dylai'r Pwyllgor:<br>a) Nodwyd y diweddariad a ddarparwyd yn yr adroddiad ar waith Gweithgor y Porth Cynghorwyr;<br>b) Cynnig sylwadau am yr amseroedd ymateb arfaethedig oedd wedi'u cynnwys yn Atodiad A;<br>c) Cynnig unrhyw sylwadau, ymholiadau neu awgrymiadau ynghylch y Porth Cynghorwyr yr hoffent i'r Gweithgor eu hystyried ymhellach fel rhan o'u gwaith. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 8 Chwefror 2024 |

## 6. Diweddariad am y Rhaglen Datblygu Aelodau

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Fe wnaeth y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd gyflyno adroddiad, a'i ddiben oedd:<br><br>a) Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch cyflawni Rhaglen Hyfforddi a Datblygu Aelodau'r Cyngor a gweithgareddau cysylltiedig;<br><br>b) Gofyn i'r Pwyllgor hefyd nodi unrhyw bynciau ychwanegol i'w cynnwys yn y Rhaglen Datblygu Aelodau.<br><br>Dywedodd fod aelodau a swyddogion wedi anfon ceisiadau am hyfforddiant yn rheolaidd, ac roedd hynny wedi'i groesawu ac anogid hynny oherwydd roedd yn galluogi targedu'r rhaglen at anghenion penodol.<br>Wrth drafod presenoldeb, rhoddodd y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ddiweddariad llafar i'r pwyllgor i'w hysbysu bod cywiriad i Atodiad B i gadarnhau bod y Cynghorydd M Williams wedi bod yn bresennol yn y sesiwn hyfforddi ynghylch Diogelu Data ar 15/09/23.<br>Dywedodd y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd bod nifer o gwestiynau wedi'u |

| | |
|---|---|
| | codi ynghylch a oedd amgylchiadau lle y gallai Aelodau gael eu heithrio rhag gorfod mynychu rhai o'r modiwlau hyfforddi e-ddysgu neu sesiynau hyfforddi lle'r oedd dyblygu. Cadarnhaodd y byddai'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn gofyn i'r Tîm Dysgu a Datblygu am arweiniad ynghylch hyfforddiant oedd yn cael ei ystyried yn orfodol.<br>Dywedodd y byddai gohebiaeth hefyd yn cael ei hanfon at yr holl Aelodau yn dweud y byddai'r tîm gwasanaethau democrataidd yn cynnal sesiynau personol i alluogi Aelodau i ddod i gael cymorth i lywio neu gwblhau'r modiwlau hyfforddi e-ddysgu.<br>Dywedodd, mewn cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2023, wrth ystyried adroddiad monitro ynghylch cwynion corfforaethol, bod aelodau'r pwyllgor hwnnw wedi dwyn sylw at y ffaith y byddant weithiau'n profi problemau ynghylch y pwnc wrth ymgysylltu â'u hetholwyr lleol.<br>Felly, argymhellodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y gallai'r Aelodau elwa o bosibl trwy gael rhywfaint o hyfforddiant ychwanegol ynghylch ymdrin â chwynion, ac efallai rhai sefyllfaoedd heriol yn ymwneud ag etholwyr mewn perthynas â'r broses trin cwynion honno Roedd hyn wedi'i ychwanegu at gofnod gweithredu'r pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gafodd ei ystyried gan y pwyllgor ym mis Ionawr eleni ac a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i ystyried a ddylid ei gynnwys yn y dyfodol.<br>Aeth y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd drwy'r ystadegau presenoldeb ar gyfer modiwlau e-ddysgu gorfodol ac atgoffodd yr Aelodau yr adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio yn ystod archwiliad mewnol y byddai Aelodau Etholedig yn cael eu hannog a'u hatgoffa i gwblhau'r holl fodiwlau dysgu yn ymwneud â'u cod ymddygiad a'r holl fodiwlau dysgu gorfodol.<br>Anogodd yr Aelodau i ailymweld â'r wefan e-ddysgu honno ac ymgymryd â'r modiwlau ychwanegol hynny.<br><br>• Mynegodd Aelod bryderon ynghylch dyblygu sesiynau datblygu aelodau a dywedodd fod dyblygu o'r fath yn effeithio ar amser aelodau a swyddogion. Cyfeiriodd at enghreifftiau megis hyfforddiant Diogelu a hyfforddiant tref 20 munud yr oedd aelodau eisoes wedi'i gwblhau fel rhan o sesiynau hyfforddi/briffio eraill.<br>Awgrymodd y posibilrwydd o anfon nodiadau atgoffa achlysurol ynghylch hyfforddiant gorfodol at aelodau er mwyn annog aelodau i ymgymryd â'r rhain.<br>Holodd hefyd, ynghylch Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, a oedd hi'n ofynnol i'r aelodau hynny oedd wedi'u haddysgu yng Nghymru ac a oedd â chymhwyster TGAU Cymraeg ymgymryd â'r hyfforddiant.<br><br>Ymatebodd y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i ddweud y byddai ei sylwadau'n cael eu bwydo'n ôl i'r Adran Dysgu a Datblygu i gael cyngor ynghylch pa un ai a ellir caniatáu eithriadau dan amgylchiadau o'r fath. |

| | |
|---|---|
| | • Croesawodd Aelod yr awgrym i gynnig sesiwn i aelodau lle gellid cynnig cymorth iddynt lywio modiwlau e-ddysgu. Holodd hefyd am y posibilrwydd o gysylltu eu cyfarfodydd un i un gydag Arweinwyr Grwpiau sy'n gyfystyr â rhyw fath o werthusiad.<br><br>• Cytunodd Aelod arall â'r awgrym o gael cymorth i lywio modiwlau e-ddysgu oherwydd ystyriai nad oedd y system yn hawdd ei defnyddio ar y pryd.<br><br>• Awgrymodd aelod y dylai aelodau gael calendr apwyntiadau â rhybudd neu nodyn atgoffa mwy gweledol ynghylch sesiynau hyfforddi gorfodol. Awgrymodd y dylid uwchgyfeirio'r mater os na ymgymerir â hyfforddiant wedi hynny. Awgrymodd hefyd y dylai'r tîm Gwasanaethau Democrataidd ymgynghori ag aelodau cyn trefnu hyfforddiant oherwydd tueddai aelodau i flaenoriaethu eu cyfarfodydd mewn perthynas â'u ward yn hytrach na hyfforddiant i aelodau.<br><br>• Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n well ganddi pe bai hyfforddiant yn cael ei drefnu ar un diwrnod o'r wythnos yn hytrach na'i gynnal yma ac acw ar draws yr wythnos oherwydd byddai hyn yn galluogi rheoli amserlenni personol yn well.<br><br>• Awgrymodd aelod y posibilrwydd o gategoreiddio hyfforddiant, er enghraifft yn ddewisol neu'n orfodol, er mwyn iddynt allu blaenoriaethu yn unol â hynny a sicrhau ei bod yn haws iddynt fynychu sesiynau.<br><br>Ymatebodd y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd gan ddatgan y gallai rhai o'r sesiynau, pe caent eu recordio, gael eu cadw ar y wefan fel y gallai'r aelodau eu gwylio eto. Dywedodd y byddai hi'n trafod â'r Adran Dysgu a Datblygu i weld a ellid cynnwys amser yn gwylio sesiynau yn y presenoldeb.<br><br>• Cytunodd yr Aelodau, mewn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y byddent yn elwa o gael sesiwn hyfforddi i ddysgu sut i ymdrin â chwynion, yn enwedig rhai anodd a blinderus.<br><br>• Holodd aelod pam oedd meysydd gwasanaethau wedi rhoi'r gorau i hysbysu cwsmeriaid am waith sydd i'w gynnal yn eu wardiau penodol oherwydd gallai gwybodaeth am y gweithiau hyn gynorthwyo aelodau wrth ymdrin â phreswylwyr. Cyfeiriodd at enghraifft o aelod oedd wedi cael camdriniaeth ar-lein mewn perthynas â hyn. Cadarnhaodd yr aelod ei fod wedi dwyn hyn at sylw'r Aelod perthnasol o'r Cabinet. |

| | |
|---|---|
| | Cytunai aelod arall fod y canlyniadau a brofir gan aelodau sy'n cynrychioli ward yn sgil y ffaith nad yw meysydd gwasanaethau yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt hefyd wedi achosi problemau yn ei ward ef.<br><br>**PENDERFYNWYD:** Cytunodd y Pwyllgor i:<br><br>a) Nodi'r adroddiad a'i atodiadau a'r gwelliant llafar i Atodiad B;<br>b) Nodi unrhyw bynciau datblygu Aelodau neu friffiau i'w cynnwys yn y Rhaglen Datblygu Aelodau a'u blaenoriaethu'n briodol. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 8 Chwefror 2024 |

**7. Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a phwrpas yr adroddiad oedd cyflwyno Blaenraglen Waith (FWP) arfaethedig i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'w hystyried a'i datblygu ymhellach.<br><br>• Holodd aelod ynglŷn â'r posibilrwydd o adolygu'r Cyfansoddiad fel rhan o FWP y pwyllgor ar sail trafodaethau hanesyddol.<br><br>Ymatebodd y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd trwy ddweud nad oedd adolygu'r Cyfansoddiad yn un o swyddogaethau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a bod y Cyfansoddiad yn cyfeirio'n benodol at sut y gellir gwneud newidiadau, yn benodol, yn dilyn cynnig gan y Swyddog Monitro. Pan gynhaliodd y Pwyllgor adolygiad llawn o'r Cyfansoddiad yn flaenorol, roedd hynny'n dilyn cyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a chytunwyd y byddai'r Cyngor hwn yn mabwysiadu Cyfansoddiad Enghreifftiol Cymru Gyfan gan ei addasu'n lleol ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr. Cytunwyd ar y pryd y byddai Gweithgor yn cael ei sefydlu trwy gyfrwng y pwyllgor i adolygu'r Cyfansoddiad yn llawn. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod y Swyddog Monitro wedi cael rhagor o welliannau awgrymedig ynghylch y Cyfansoddiad ac roedd wrthi'n ystyried y gwelliannau hynny ar y pryd.<br>Dywedodd fod hynny'n orchwyl hir iawn y dylid ei chynnal ar adegau priodol, ac ychwanegodd na fyddai'n ymarferol mynd ati i adolygu'r Cyfansoddiad yn flynyddol oherwydd y cyfyngiadau ar |

| | |
|---|---|
| | adnoddau swyddogion ac Aelodau. Cadarnhaodd fod croeso i aelodau anfon adborth a sylwadau ynghylch y newidiadau awgrymedig i'r Cyfansoddiad at y Swyddog Monitro, a byddai'r Swyddog Monitro wedi hynny yn gallu cynnig arweiniad i'r pwyllgor ynghylch sefydlu gweithgor arall. Yn dilyn trafodaethau, nododd yr Aelodau nad oedd adolygu'r Cyfansoddiad yn rhan o'u cylch gorchwyl, ond fe wnaethant argymell y dylai'r Swyddog Monitro ystyried sefydlu Gweithgor Arall i adolygu'r Cyfansoddiad.<br><br>**PENDERFYNWYD:** Ystyriodd yr Aelodau y Flaenraglen Waith ddrafft arfaethedig ar gyfer y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a oedd wedi'i chynnwys yn Atodiad A ac fe wnaethant gynnig sylwadau neu awgrymiadau rhagor o eitemau i'w hystyried gan y Pwyllgor yn ei gyfarfodydd yn y dyfodol.<br><br>Argymhellodd y pwyllgor y dylai'r Swyddog Monitro ystyried sefydlu Gweithgor trwy gyfrwng y Pwyllgor i adolygu'r Cyfansoddiad. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 8 Chwefror 2024 |

**8. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | Dim |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 8 Chwefror 2024 |

I arsylwi rhagor o drafod a ddigwyddodd ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 11:15.